

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.13 Cynlluniau a Strategaethau

Awdurdod Lleol



Rhagarweiniad

Yn hwyr yn 2005 derbyniodd Lywodraeth Cymru gynigion i leihau nifer y cynlluniau a'r strategaethau lleol sy'n rhaid i lywodraeth leol eu cynhyrchu o ddwsinau i ddim ond pedwar. Yr enw ar y broses leihau hon oedd 'Rhesymoli Cynlluniau' a'i nod oedd lleihau'r baich gweinyddol a roddir ar gynghorau lleol fel y medrant ganolbwyntio ar ddarparu i'r dinesydd yn lle ar gydymffurfio â phrosesau a osodir allan gan Lywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen rhesymoli cynllun yn cymwys i faterion nad archwilir gan y Lywodraeth Cymru, na/neu sy'n delio gyda materion heb eu datganoli. Felly er enghraifft, rhaid i gynghorau gynhyrchu Strategaeth Diogelwch Cymunedol yn ôl y gyfraith, ond ni chrybwyllir hyn o fewn y cynllun rhesymoli am mai mater heb ei ddatganoli i raddau helaeth yw hyn.

Y peth pwysig i gofio am gynlluniau a strategaethau yw y dylech ymrafael a'r prosesau i ddylanwadu ar beth sy'n gynnwysedig - os nad yw eich materion wedi'u hadlewyrchu yn y cynlluniau, nid yw'r awdurdod yn mynd i wastraffu amser, ymdrech nac adnoddau i'w cynyddu.

Y pedair strategaeth

Mae Rhesymoli Cynlluniau wedi arwain at ofyniad gan y Llywodraeth i gynhyrchu dim ond pedair strategaeth statudol, lefel uchel ym mhob awdurdod lleol:

- Strategaeth Gymunedol - sef y ddogfen gyffredinol gyda thair strategaeth ragnodedig isod
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Cynllun Datblygu Lleol

Mae datblygu'r pedwar cynllun a strategaeth uchod yn golygu bod cynlluniau a strategaethau blaenorol sydd wedi bod yn gyfarwydd i bobl wedi cael eu llyncu gan, neu eu cyfuno gan y pedwar cynllun statudol newydd uchod mewn rhyw ffordd. Ond er mai dim ond pedwar cynllun statudol sydd yna bellach, nid yw hyn yn golygu bod cynllunio mewn meysydd eraill wedi dod i ben – dim ond bod awdurdodau lleol bellach yn gallu dewis sut i wireddu a monitro eu hamcanion strategol a gweithredol. Medrant ddewis parhau i ddatblygu eu cynlluniau eu hunain o dan ymbarél y 'pedwar mawr', neu gadw eu trefniadau cynllunio blaenorol a'u halinio â'r pedwar cynllun newydd, neu

ddewis peidio â chael unrhyw gynlluniau eraill a dim ond sicrhau bod yr holl faterion yn derbyn sylw drwy'r pedwar cynllun statudol. Beth bynnag a ddewisant (ac mae pob awdurdod lleol yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd), dylai'r holl faterion dderbyn sylw rhywsut neu'i gilydd yn y pedair strategaeth.

Mae'r wybodaeth yma'n ceisio egluro beth y mae'r strategaethau newydd yn ei gynnwys, beth y maent wedi'i 'lyncu' o'r hen drefniadau cynllunio a sut y mae'r prosesau cynlluniau eraill sy'n parhau yn ffitio yn hyn i gyd. Bydd rhai cynlluniau ar lefel leol yn torri ar draws un neu fwy o'r cynlluniau statudol newydd, ond bydd eraill yn amlwg yn disgyn i ddim ond un. Fodd bynnag, rydym yn dal i fod mewn cyfnod trosiannol o ran cau pen y mwdwl gyda rhai o'r cynlluniau a'r strategaethau a bydd y prosesau cynllunio'n gweithio'n wahanol ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Dylech ddarllen y wybodaeth yma fel deunydd cyfamserol yn unig a siarad â'ch awdurdod lleol i gael mwy o fanylion ar sut y mae hyn yn gweithio yn eich ardal chi.

Strategaeth Gymunedol

Diben y Strategaeth Gymunedol yw dwyn ynghyd pawb sy'n gallu cyfrannau at ddyfodol cymunedau mewn ardal awdurdod lleol, i gytuno ar y prif flaenoriaethau ar gyfer yr ardal a mynd ati i'w gweithredu mewn partneriaeth. Y Strategaeth Gymunedol yw'r strategaeth drosfwaol i bob ardal awdurdod lleol. Rhaid iddi ddarparu gweledigaeth strategol tymor hir i hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, ar sail cyfres o werthoedd a dyheadau cyffredin sydd wedi eu trafod a'u negodi gyda dinasyddion lleol, cymunedau a'u harweinwyr. Yn ôl y cyfarwyddyd statudol ar gyfer datblygu a darparu strategaethau cymunedol,

'Dylai strwythur y bartneriaeth drosfwaol sicrhau bod amrywiaeth y trydydd sector wedi'i adlewyrchu ym mhob partneriaeth sy'n cefnogi datblygiad a gweithrediad amcanion y strategaeth gymunedol...'

Felly, dylid adlewyrchu prif gyfeiriad a blaenoriaethau strategol y Strategaeth Gymunedol yn y strategaethau statudol ac anstatudol eraill, gyda'r pedwar cynllun wedi eu cydgysylltu ac yn croesgyfeirio at ei gilydd. Mae'r cynlluniau neu'r strategaethau (neu elfennau ohonynt) sydd efallai wedi cael eu llyncu gan y broses hon, neu sy'n rhaid eu halinio â'r broses hon mewn rhyw ffordd, yn cynnwys:

- Strategaeth Dai Lleol
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol
- Strategaeth Lleihau Troseddu ac Anrhefn (Cynllun Diogelwch Cymunedol)
- Cynllun Gweithredu Lleol Camddefnyddio Sylweddau
- Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (Cynllun Gweithredu Lleol)

Mae hefyd yn berthnasol nodi yn y fan hyn pa mor bwysig yw Cytundebau Darparu Lleol a baratoir gan Fyrddau Gwasanaeth Lleol. Maen nhw'n gosod allan y cydweithredu gan bartneriaid ar nifer fach o brosiectau heriol sydd angen arweiniad, sgiliau datrys problemau a chefnogaeth y Byrddau Gwasanaeth Lleol. Bydd y

prosiectau wedi eu gwreiddio ym mlaenoriaethau'r Strategaeth Gymunedol ac yn rhan o gynllun gweithredu'r Strategaeth Gymunedol.

Cynllun Plant a Phobl Ifanc

Hwn yw'r datganiad diffiniedig ar y bwriad a'r blaenoriaethau cynllunio strategol ar gyfer yr holl wasanaethau plant a phobl ifanc yn yr ardal. Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn cymell gwasanaethau plant i integreiddio'n well ar lefel leol; yn helpu i gryfhau trefniadau partneriaeth lleol; yn disgrifio pa welliannau a gyflawnir yn yr ardal leol a phryd y darperir y gwelliannau hyn. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ymgynghori gyda chyrrff sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol i blant a phobl ifanc yn eu hardaloedd. Mae'r cynlluniau a'r strategaethau (neu elfennau ohonynt) sydd efallai wedi cael eu llyncu gan y broses hon, neu sy'n rhaid eu halinio â'r broses hon mewn rhyw ffordd, yn cynnwys:

- Strategaeth Mynediad i Bobl Anabl
- Cynllun Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cynllun Addysg Sengl
- Cynllun Gweithredu ar Reoli Plant yn Gyntaf
- Strategaeth Sgiliau Sylfaenol
- Cynllun Gwasanaethau Plant
- Cymorth – Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc
- Cynllun Hawl Bore Oes (Plant rhwng 1 – 10 oed)
- Partneriaethau Pobl Ifanc (11-25 oed)
- Llwybrau Dysgu 14 - 19 oed
- Strategaeth Dai Lleol
- Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl
- Cynllun Gweithredu Lleol Camddefnyddio Sylweddau
- Cynllun Llyfrgelloedd Cyhoeddus

Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

Mae awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn gyfreithiol gyd-gyfrifol am gynllunio gwasanaethau sy'n hybu iechyd a lles y gymuned ac yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy baratoi a gweithredu Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Dylai ddarparu ymateb cyd-gysylltiedig i'r holl broblemau sy'n effeithio ar iechyd, gofal cymdeithasol a lles pobl, gan gynnwys mynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd, fel tai, cyflogaeth a throseddau. Hwn, i fod, yw'r prif ddull o ddiffinio'r ymateb lleol i 'Her Iechyd Cymru', ond dylai'r Strategaeth Gymunedol a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc hefyd adlewyrchu pa mor bwysig yw'r ffactorau iechyd a iechyd cyhoeddus ehangach o ran eu heffaith ar iechyd y genedl.

Mae ail-strwythuro diweddar y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn golygu bod llai o Fyrddau Iechyd Lleol (gweler ein taflen waith ar wahân ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru). Fodd bynnag, nid yw hyn wedi newid y ddyletswydd statudol ar gyfer yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol i gydweithredu gyda Chynghorau Gwirfoddol

Sirol yn eu hardaloedd a grwpiau gwirfoddol eraill i ymddiddori mewn darpariaeth gwasanaeth iechyd a lles wrth baratoi Strategaeth. Mae'r cynlluniau a'r strategaethau lleol o fewn y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn cynnwys:

- Strategaeth Gofalwyr
- Strategaeth Lleoliadau
- Cynllun Gofal Cymdeithasol
- Strategaeth Anableddau Dysgu
- Cynllun Rheoli Ansawdd Aer Lleol
- Strategaeth Dai Lleol
- Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl
- Cynllun Gweithredu Lleol Camddefnyddio Sylweddau
- Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn
- Cynllun Llyfrgelloedd Cyhoeddus

Cynllun Datblygu Lleol

Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn cael eu disodli gan Gynlluniau Datblygu Lleol a fydd yn cael eu mabwysiadu o 2011 ymlaen. Maen nhw'n ymwneud â defnydd tir ac yn nodi sut fydd ardal awdurdod yn datblygu, newid neu'n cael ei warchod dros gyfnod o 10-15 mlynedd. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol ystyried Cynllun Gofodol Cymru ac, fel rhan o'r gwaith paratoi cychwynnol, rhaid i awdurdodau lleol gytuno ar a mabwysiadu Cynllun Cynnwys Cymunedau, yn nodi sut fydd cymunedau lleol, y trydydd sector, busnesau, y sector cyhoeddus a Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys yn y broses. Dylai hyn adlewyrchu'r dull corfforaethol o gynnwys y gymuned a, lle bo hynny'n bosibl, argymhellir cydgyfranogi wrth ddatblygu'r Strategaeth Gymunedol a'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r cynlluniau a'r strategaethau (neu elfennau ohonynt) sydd efallai wedi cael eu llyncu neu eu cyfuno gan y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys:


- Strategaeth Dai Lleol (gan gynnwys y strategaeth leol ar ddiartrefedd a'r strategaeth Tai i Bobl Dduon a Lleidiafrifoedd Ethnig)
- Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl
- Cynlluniau Busnes Cyfrifon Refeniw Tai (i awdurdodau sy'n dal i fod â stoc dai)
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol
- Strategaeth Adfer Tir Halogedig
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Cynllun Rheoli Ansawdd Aer Lleol
- Strategaeth Rheoli Gwastraff Bwrdeistrefol
- Cynllun Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

Yr agenda rhanbarthol

Cynllun pwysig arall sy'n effeithio ar lefel rhanbarthol ac sy'n bwysig yn lleol yw **Cynllun Gofodol Cymru**. Rhannwyd Cymru yn chwe ardal er mwyn cynllunio gofodol, ac o fewn yr ardaloedd hyn, mae awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector preifat a Llywodraeth y Cynulliad a'i asiantaethau yn cydweithio mewn Grwpiau Rhanbarth Cynllun Gofodol. Y nod yw sicrhau fod beth bynnag a wneir ar draws y sectorau gwahanol wedi'u hintegreiddio ar draws y rhanbarthau, ac y bydd y weledigaeth a gyd-gytunwyd yn gosod cyd-destun rhanbarthol ar gyfer y broses strategaeth gymunedol. Mae'r broses ranbarthol yn ceisio dylanwadu sut mae Llywodraeth Cymru yn datblygu rhwydwaith ar sail ranbarthol - beth sy'n cael ei wneud, a ble. O fewn y broses cynllunio gofodol y gellir dechrau gweld cysylltiad rhwng y materion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Sut y mae'r cwbl yn cyfuno

Gallai fod yn ddefnyddiol meddwl am y cynlluniau ar lefel lleol yn ffitio i'w gilydd fel a ganlyn:



Cyfrannu at ddatblygiad y strategaeth

Mewn theori, efallai fod y broses o resymoli cynlluniau wedi helpu'r sector, oherwydd mae'n golygu gorfod cyfrannu at ddatblygiad (a gweithrediad) dim ond pedair strategaeth statudol awdurdod lleol yn lle 32. Fodd bynnag, o gofio bod nifer o awdurdodau lleol yn parhau i fod â thwr o strwythurau cynllunio o dan ymbarél y 'pedwar mawr', mae dal yn rhaid iddynt wahodd cyfraniad a barn y sector. Bydd angen i'r strwythurau a'r prosesau newydd wreiddio dros gyfnod hirach o amser cyn y gellir gwerthuso effaith y trefniadau cynllunio newydd yn iawn. Y ffordd orau o weld beth sy'n digwydd ac o gyfrannu at y prosesau cynllunio yn eich ardal chi yw drwy gysylltu â'ch cyngor gwirfoddol sirol, a fydd â chysylltiadau pwysig gyda'r awdurdod lleol.

Gwybodaeth Bellach

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru: 19/10/2012



Ffôn: 0300 111 0124
www.wcva.org.uk